

Gwers 10 – Y baban yn y fasged

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Exodus 2:1 – 10

Aeth tair canrif a hanner heibio ers marwolaeth Joseff yn yr Aifft, ac erbyn hynny, roedd nifer meibion Israel wedi mynd 'mor gryf a niferus nes bod y wlad yn llawn ohonynt' (Exodus 1:7). Cododd brenin newydd na wyddai am Joseff a phan welodd ef y cynnydd yn nifer pobl Israel gwelai'r posibilrwydd iddynt, pe deuai rhyfel, ymuno gyda gelynyon yr Aifft i ymladd yn eu herbyn. Penderfynodd osod 'meistri gwaith i oruchwylio'r bobl ac i'w llethu â beichiau trymion' (Exodus 1:11). Er mwyn torri eu crib gorfodwyd i'r Israeliaid weithio dan ormes, 'yn llafurio'n galed â chlai a phriddfeini, a gwneud pob math o waith yn y meysydd' (Exodus 1:14). I bobl yn mwynhau rhyddid a phob ffafr, roedd hyn yn galed iawn, a'r caledi hwnnw'n cael ei ddwysáu wrth iddynt gofio'r addewid a roddwyd gan Dduw i'w tad Abraham a'i ddisgynyddion. Sethi l a Rameses ll oedd yn llywodraethu yn y cyfnod.

Gyda chymorth y caethweision hyn adeiladwyd dinasoedd Pithom a Rameses ar gyfer ystordai Pharo. Darganfuwyd dogfennau papurfrwyn o'r cyfnod sy'n cadarnhau'r hyn a gofnodir yn llyfr Exodus; llusgo cerrig anferth i adeiladu porth i deml Rameses ll. Cyfeirir hefyd at y prinder gwellt i wneud priddfeini (gweler Exodus 5:7).

Ni fu'r ymgais hon i leihau niferoedd yr Israeliaid yn llwyddiannus ac mewn enghraifft o gynllun hil-laddiad rhoddodd Pharo orchymyn i fydwragedd yr Hebreaid i sicrhau fod pob mab a enid i wragedd Israelaidd yn cael ei ladd. Fodd bynnag, oherwydd eu bod yn parchu Duw, gadawsant i'r bechgyn fyw, a chynyddodd y genedl nes gorfodi'r Pharo i orchymyn fod pob mab a enir i gael ei daflu i'r afon Neil.

Ganwyd mab i deulu o lwyth Lefi ac wedi llwyddo i'w gadw rhag cael ei ladd am dri mis fe'i gorfodwyd i'w guddio; '...cymerodd gawell wedi ei wneud o lawfrwyn a'i ddwbio â chlai a phyg: rhoddodd y plentyn ynddo a'i osod ymysg yr hesg ar lan y Neil' (Exodus 2:3). Byddai Miriam, chwaer y plentyn, yn cadw golwg arno, ond un diwrnod daeth merch Pharo i ymdrochi yn yr afon a chanfod y gawell yng nghanol yr hesg. Wedi iddi ei agor, tosturiodd o weld y plentyn yn wylo, a'i adnabod fel un o blant yr Hebreaid, a chytunodd i'r plentyn gael ei fagu gan ei fam ei hun, hyd nes yr oedd yn ddigon hen i fynd i'r palas. Enwyd y plentyn yn Moses, oherwydd i ferch Pharo ddweud, 'Tynnais ef allan o'r dŵr'.

Yr Aifft


Cyfeirir at y wlad yn yr hanesion am y Patriarchiad ac oherwydd ffrwythlondeb y tiroedd yn ffinio ar aber yr afon Neil, roedd llawer o'r cenedloedd cyfagos yn symud yno pan ddeuai newyn i'w tiroedd hwy, e.e. dyddiau Abram (Genesis 12:10). Derbynid estroniaid o bob cyfeiriad, rhai'n cael eu gosod mewn swyddi cyfrifol, fel ag y digwyddodd i Joseff a ddaeth yn bennaeth ar yr holl wlad (Genesis 41:37ym). Roedd yr Aifft yn wlad gosmopolitaidd ac nid oedd yn anarferol i Eifftes ofalu am blentyn o genedl arall.

Merch Pharo

Mae'n anhebygol ei bod yn dywysoges o linach Pharo ond yn ferch un o'i ordderch-wragedd.

Israeliaid/Hebreaid

Enw teuluol neu cyfenw a ddefnyddir am Abraham a'i ddisgynyddion.



Mae'r arlunydd wedi anghofio tynnu llun o Moses a'i fasedd.
Tynna lun o Moses a'r fasedd ac yna lliwia'r llun.
Ceiddarllen y stori enwog hon yn Exodus 2:1-7.

Gwers 10 – Y baban yn y fasedd

Baban mewn basged | Exodus 2:1–10

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 46



Gwers 10

Y baban yn y fasedd

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Y baban yn y fasedd tud 46

BEIBL LLIW STORI DUW

Miriam a'r dywysoges tud 48

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Cuddio babai tud 28

BEIBL LLIW Y PLANT

Moses yn yr hesg tud 68

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Baban mewn basged tud 39

BEIBL BACH I BLANT

Y dywysoges a'r babi tud 92

Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storiâu

Y baban yn yr hesg tud 58

BEIBL LLIW Y TEULU

Y babi yn y gawell tud 33

I Ddechrau ...

Gêm Codi Pyramid

Bydd angen swp o gwpanau plastig arnoch. Rhannwch y grŵp yn dimoedd a rhowch sialens iddynt adeiladu pyramid o fewn dau funud. Rhowch wobwr fechan i'r tîm â'r pyramid gorau.

Gofynnwch i'r grŵp a ydynt yn gwybod pwy oedd yn gyfrifol am adeiladu'r pyramidiau?

Dangoswch luniau o rai o adeiladu enwog yr Aifft, e.e. Sffincs. Cewch hyd i luniau o adeiladau o'r Aifft ar y We trwy ddefnyddio www.Gwgl.co.uk. Esboniwch wrth y grŵp fod pobl Dduw wedi treulio amser yn yr Aifft (efallai byddant yn cofio hanes Joseff a'i gôt amryliw).

Gêm 'Ble mae fy Mymi?'

Rhannwch y bobl ifanc yn dimoedd. Bydd angen rolyn o bapur toiled ar bob tîm.

Esboniwch am arferiad yr Eifftiaid o lapio pobl oedd wedi marw mewn cadachau i greu "mymis." Ras yw hon i greu Mymi drwy lapio un aelod o'r tîm mewn papur toiled. Rhowch ddwy funud i'r timoedd ac wedyn dewis pa dîm sydd wedi creu'r "mymi" gorau.

Gofynnwch i'r plant a ydynt yn adnabod rhywun sydd wedi bod yn yr Aifft ar wyliau? Erbyn heddiw mae'r pyramidiau a'r adeiladau eraill yn adfeilion ond mae llawer o ymwelwyr yn mynd i'r Aifft i'w gweld. Mae hanes a diwylliant yr Aifft yn hudol iawn i lawer.

Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau ac wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

Bydd angen 4 darn o bapur maint A4 a phensiliau lliw, a 4 swigen siarad gyda'r geiriau canlynol arnynt:

1. 'Mae'n rhaid inni guddio'r baban rhag milwyr Pharo. Dydyn ni ddim eisiau iddynt daflu ein baban i'r afon.'
2. 'Arhoswch yma yn y brwyn allan o'r golwg, i wyllo'r fasedd.'
3. 'Beth ydy'r sŵn yna? Mae'n debyg iawn i sŵn baban yn crïo. Dos at y brwyn i chwilio.'
4. 'Bww, hww, bww, hww.'

Gofynnwch am wirfoddolwyr i dynnu lluniau o'r cymeriadau canlynol o'r hanes: Mam Moses, Miriam,

Y Dywysoges, y baban Moses.

Wedyn, ail adroddwch y stori yn eich geiriau eich hun, gan ddangos y cymeriadau yn eu tro a gofynnwch i'r plant i ddewis swigen sy'n cyfateb i'r cymeriad. Gallwch ddarllen y swigod i'r plant iau cyn iddynt ddewis pa swigen, ond gyda'r plant hŷn, gallwch ofyn i wahanol aelodau ddarllen y brawddegau.

Cymhwyso

Trafodwch sut deimladau oedd gan y gwahanol gymeriadau yn y stori ac ychwanegwch y teimladau i'r swigod perthnasol. Cyflwynwch y syniad bod Duw wedi dewis Moses i gael rhan allweddol yn ei gynllun i achub pobl Israel o'r Aifft. Roedd Duw yn gofalu amdano o'r cychwyn cyntaf. Cafodd Moses ei fagu gan ei fam am gyfnod cyn iddo fynd i fyw at y Dywysoges ym mhalas Pharo.

Dysgu Adnod

'Gwyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sy'n caru Duw,' (Rhufeiniaid 8:28).

Bydd angen geiriau'r adnod wedi'u hysgrifennu ar ddarnau o bapur siâp basged – gydag un gair ar bob papur. Bydd angen un set o eiriau ar gyfer pob tîm.

Rhannwch y plant yn dimoedd, gyda'r geiriau wedi'u gosod mewn setiau cyflawn ar ochr arall yr ystafell i'r timoedd. Mae'r plant yn cymryd eu tro i nôl un o'r geiriau, ac wedyn ffurfio'r adnod, a'i dysgu.

Esboniwch ystyr yr adnod i'r plant gan ei gymhwyso i hanes Moses, e.e. roedd gan Dduw gynllun i achub ei bobl o'r Aifft ac roedd wedi bwriadu i Moses chwarae rôl yn y cynllun, felly parodd i ferch Pharo ddod o hyd iddo a'i fagu.

Cân

'Bendigedig enw yr Iôr', Tyrd i Ddathlu, rhif 2.

Cwis

Bydd angen rhestr o gwestiynau, darn 2 geiniog, swp o gwpanau plastig.

Rhannwch y plant yn dimoedd a gofynnwch gwestiwn i bob tîm yn eu tro. Os ydynt yn cynnig ateb cywir caiff un aelod fflicio'r 2g, ac os ydyw'n glanio ar ochr y pen, bydd y tîm yn derbyn cwpan. Os ydyw'r 2g yn glanio ar yr ochr arall byddant yn derbyn 2 gwpan. Y nod yw adeiladu pyramid gyda'r cwpanau. Y tîm sydd â'r pyramid uchaf sy'n ennill.

Gweddi

'Peidiwch â phoeni, siaradwch â Iesu'

Bydd angen bocsg esgidiau wedi'i orchuddio gyda phapur deniadol gyda'r geiriau, 'Peidiwch â phoeni, siaradwch â Iesu' wedi'u hysgrifennu rhywle arno, a bwlch yn y caead.

Rhowch ddarn o bapur a phensel i bawb, a'u gwahodd i ysgrifennu rhai pethau sy'n eu poeni arno a'u rhoi yn y bwlch heb i neb eu gweld. Atgoffwch y plant o sut y bu i'r Israeliaid weddio ar Dduw i'w hachub o'r Aifft a sut y bu i Dduw eu clywed. Mae Duw am inni siarad gydag ef a dweud wrtho beth sy'n ein poeni ni – pethau sy'n digwydd yn yr ysgol, adref neu gyda'n ffrindiau. Gweddiwch dros y plant gan gyflwyno eu pryderon i Dduw a cheisio ei gymorth.

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed
Y Baban yn y Fasged tud.18

Gwerslyrau Golau ar y Gair

Moss: Y Dywysoges a'r Baban

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres B – Moses

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 9: Y Dywysoges a'r Baban

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 276

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 10: Y Dywysoges a'r Babi

Powerpoint ar wefan visionforchildren.co.uk

Hanes Moses

Llyfrau Stori

Miriam y Chwaer Fawr
Cyfres Fi Hefyd – Duw yn unig wyddai
Baban yn y Cawell
Y Baban yn yr Hesg

